Cymorth Gwladwriaethol State Aid

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio Rheoliad De Minimis – Cyfarwyddiadau Desg

Mae'r cyfarwyddiadau desg hyn yn rhoi:

- Trosolwg o Reoliad de minimis.
- Pryd y dylid defnyddio rheoliad de minimis.
- Awgrymiadau ymarferol ar gyfer dyfarnu cymorth yn unol â Rheoliad de minimis lle mae:
  - cymorth yn cael ei roi'n uniongyrchol i sefydliad
  - cymorth yn cael ei roi i drydydd parti i weinyddu cynllun de minimis.

At hynny, mae'r cyfarwyddiadau desg hyn yn cynnwys templedi ar gyfer:

- Casglu gwybodaeth am gymorth de minimis blaenorol a gafwyd.
- Hysbysu'r buddiolwr am swm y cymorth de minimis a ddarperir.
- Canllawiau de minimis eraill sydd ar gael: Crynodeb o Reoliad de minimis, taflen ffeithiau (taflen ffeithiau 9) am gymorth de minimis, a rhestr wirio de minimis (rhestr wirio 8 + 8(A)).

Ar ôl i'r DU adael y DU, dim ond mewn rhai amgylchiadau y mae rheoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE yn gymwys:

1. Ar gyfer cymorth a roddir o fewn cwmpas Protocol Gogledd Iwerddon;
2. Ar gyfer talu taliadau Cronfeydd Strwythurol sy'n weddill.

Ym mhob achos arall, rhaid darparu cymorth yn unol â threfn rheoli cymorthdaliadau'r DU. I gael rhagor o wybodaeth am drefn rheoli cymorthdaliadau'r DU, ewch i wefan Llywodraeth y DU yma [add hyperlink].

## Trosolwg o Reoliad de minimis

**Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o Reoliad de minimis. Atodir crynodeb manylach o'r Rheoliad yn Atodiad 1 a cheir manylion llawn yn Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1407/2013 ar gymhwyso Erthyglau 87 ac 88 (107 a 108 bellach) o'r Cytuniad at gymorth de minimis.**

Yn y Rheoliad de minimis, mae'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn nodi ar ba sail na fyddai symiau bach o gymorth cyhoeddus a roddir i ymgymeriad yn cyfrif fel cymorth gwladwriaethol yn ystyr Erthyglau 107 a 108 o'r cytuniad.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod swm y cymorth de minimis y gellir ei roi mor isel fel nad yw'n cael fawr ddim effaith ar fasnach na chystadleuaeth. Pan fo'r cymorth yn cael ei ddarparu yn unol â threfn gymorthdaliadau'r DU, mae'r Rheoliad de minimis wedi'i olynu gan y 'Symiau Bach o Esemptiad Ariannu' (SAFE), sy'n caniatáu i uchafswm o 325,000 o Hawliau Tynnu Arbennig gael eu dyfarnu i un ymgymeriad dros y ddwy flynedd ariannol bresennol a blaenorol.

### Cyfyngiadau

- Ni ellir rhoi cymorth de minimis a SAFE pe bai cyfanswm y cymorth de minimis a ddyfarnwyd i'r ymgymeriad dros y tair blwyddyn gyllidol flaenorol yn fwy na'r terfyn uchaf o €200,000 (€100,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd).
- Ni ellir cronni cymorth de minimis â chymorth Gwladwriaethol arall mewn perthynas â'r un costau cymwys (golyga hyn fod yr arfer o ychwanegu cymorth arall at gymorth de minimis wedi'i wahardd).

## Pryd y dylid defnyddio Rheoliad De Minimis

Dim ond fel y dewis olaf pan na ellir dod o hyd i ffynhonnell ariannu o dan gynllun cymorth cymeradwy nac eithriad bloc y dylid defnyddio cymorth de minimis. Mae hyn yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- Gall sefydliad fod yn cael arian de minimis a SAFE o sawl ffynhonnell a gellir cyrraedd y trothwy yn gyflym. Felly, byddai swm y cymorth de minimis sydd ar gael i'r sefydliad yn gyfyngedig.
- Gall fod yn anodd gweinyddu cymorth de minimis, yn enwedig wrth nodi'r lefelau blaenorol o arian de minimis a gafwyd gan sefydliadau.

Mae enghreifftiau o'r math o sefyllfa lle y gellir defnyddio cymorth de minimis yn cynnwys:

- costau gweithredu arferol, pan nad oes cymorth ariannol ar gael o dan unrhyw reolau eraill ynglŷn â chymorth gwladwriaethol; er enghraifft, cymorth ariannol ar gyfer costau gweithredu;
- cynlluniau, os ystyrir ei bod yn briodol, o safbwynt polisi, i roi lefelau dwysach o gymorth nag y caniateid o dan unrhyw reolau cysylltiedig ynglŷn â chymorth Gwladwriaethol;
- er enghraifft, cynlluniau sy'n rhoi mwy na 50% o gymorth i gyfranogi mewn ffeiriau masnach.

**Gofynion Gweinyddol**

Bydd y gofynion gweinyddol y bydd angen i chi eu bodloni yn amrywio, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol dan sylw:

- os byddwch yn rhoi cymorth yn uniongyrchol i sefydliad, naill ai o dan gynllun neu fel swm unigol o gymorth ariannol, bydd angen i chi ddilyn opsiwn A; neu
- os byddwch yn rhoi arian i sefydliad trydydd parti er mwyn iddo weinyddu cynllun de minimis ar eich rhan, bydd angen i chi ddilyn opsiwn B.

## Opsiwn A: Dyfarnu cymorth de minimis yn uniongyrchol i Sefydliad

**CYN RHOI CYMORTH DE MINIMIS BYDD ANGEN I CHI WNEUD Y CANLYNOL:**

### 1. Sicrhau bod y buddiolwr yn gymwys i gael cymorth De Minimis

NID yw'r canlynol yn gymwys i gael cymorth:

- cymorth i'r sectorau pysgodfeydd a dyframaethu, fel y'i cwmpesir gan Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 104/2000;
- cymorth sy'n gysylltiedig â phrif brosesau cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol fel y'u rhestrir yn Atodiad 11 i'r Cytuniad;
- cymorth sy'n gysylltiedig â phrosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol lle mae'r canlynol yn gymwys:
  - pan gaiff swm y cymorth ei bennu'n seiliedig ar bris neu nifer cynhyrchion o'r fath a brynwyd gan gynhyrchwyr cynradd neu a roddwyd ar y farchnad gan yr ymgymeriadau dan sylw;
  - pan fo'r cymorth yn amodol ar gael ei drosglwyddo'n rhannol neu'n gyfan gwbl i'r cynhyrchwyr cynradd.
- cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag allforio gan gynnwys sefydlu rhwydweithiau dosbarthu mewn aelod-wladwriaethau eraill neu drydydd gwledydd;
- cymorth sy'n ddibynnol ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau wedi'u mewnforio;
- cymorth i gaffael cerbydau cludo nwyddau ar y ffordd a roddir i ymgymeriadau sy'n cludo nwyddau ar y ffordd am dâl neu wobr;
- cymorth a roddir i gwmnïau mewn trafferth ar ffurf benthyciadau neu warantau.

### 2. Sicrhau na fydd y cymorth sydd i'w roi gennych yn mynd â chyfanswm y cymorth de minimis sydd wedi'i roi i'r ymgymeriad sy'n cael ei ariannu dros y trothwy de minimis

Ni ddylai uchafswm y cymorth a ddyfernir i ymgymeriad fod yn fwy na €200,000 dros unrhyw gyfnod o dair blwyddyn gyllidol h.y. y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth SAFE a dderbyniwyd dros yr un cyfnod.
Y flwyddyn gyllidol dan sylw fydd blwyddyn gyllidol y cwmni yn yr aelod wladwriaeth.

**Enghraifft 1**

Os caiff eich cais am gymorth de minimis ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2014 a bod blwyddyn gyllidol y cwmni yn cyd-fynd â blwyddyn gyllidol y DU (rhwng 6 Ebrill a 5 Ebrill), byddai angen ystyried unrhyw arian de minimis a gafodd y cwmni rhwng 6 Ebrill 2011 a mis Ionawr 2014 (h.y. blynyddoedd cyllidol 11-12, 12-13, 13-14).

**Enghraifft 2**

Mae blwyddyn gyllidol cwmni yn rhedeg o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Os caiff cais am gymorth de minimis ei gymeradwyo ar 1 Chwefror 2014, byddai angen ystyried unrhyw arian de minimis y mae'r cwmni wedi'i gael rhwng 1 Ionawr 2012 a 31 Ionawr 2014 (h.y. blynyddoedd cyllidol 12, 13, 14).

Er mwyn cyfrifo p'un a fyddai dyfarnu cymorth yn golygu bod y derbynnydd yn mynd dros y trothwy bydd angen i chi gael manylion ganddo am gymorth de minimis a SAFE arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol. Bydd angen cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

**Mae Atodiad 2 yn nodi llythyr templed y gellir ei ddefnyddio i gasglu'r data perthnasol gan dderbynwyr a'u hysbysu am werth y cymorth de minimis sy'n cael ei ddyfarnu.**

## Cyfrifwch werth y cymorth de minimis

Efallai na fydd bob amser yn bosibl nodi union lefel y cymorth sydd i'w roi ar y dechrau (er enghraifft os bydd y cleient wedi nodi bod angen pum diwrnod o wasanaeth ymgynghoriaeth ond gall ddefnyddio llai, mewn gwirionedd). Mae Atodiad 2 yn cynnwys templed y gellir ei ddefnyddio i gadarnhau union lefel y cymorth a roddir ar ddiwedd prosiect.

Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol ymgorffori'r cais am y wybodaeth hon mewn ffurflenni cais er mwyn i weinyddwyr cymorth allu asesu'r lefel briodol o gymorth heb orfod cysylltu â'r ymgeiswyr ar wahân.

**At ddibenion cyfrifo'r terfyn uchaf bydd angen i chi ystyried y canlynol:**

- Mae'r terfyn uchaf yn gymwys i gyfanswm y cymorth de minimis i dderbynnydd unigol (h.y. pob endid cyfreithiol ar wahân) o bob ffynhonnell – nid oes angen ystyried cymorth a ddyfarnwyd o dan gynllun cymorth gwladwriaethol arall (eithriad bloc, cynllun hysbysedig neu ddim cymorth) ar yr amod ei fod wedi'i ddyfarnu i dalu costau cymwys gwahanol.
- Os ystyrir bod yr ymgymeriad yn fusnes cysylltiedig (fel y'i diffinnir o dan y meini prawf a roddir yn y diffiniad o fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yn Argymhelliad y Comisiwn 2003/361/EC), yna dylid ystyried y grŵp o fusnesau cysylltiedig fel un ymgymeriad at ddibenion cymhwyso'r rheol de minimis, a'r holl gymorth de minimis a gafwyd gan y busnesau cysylltiedig wrth gyfrifo'r terfyn uchaf.
- Os bydd dau ymgymeriad neu fwy wedi uno, dylid ystyried cyfanswm y cymorth de minimis a gafwyd gan bob un o'r busnesau sydd wedi'u huno yn ystod y cyfnod cyfeirio. Ni fydd y busnes newydd yn cael dechrau 'â llechen lân'.
- Mae'r terfyn uchaf yn gymwys waeth pa fath o gymorth a geisir (e.e. grant uniongyrchol/ gwasanaethau a gymorthdelir) neu'r amcan sydd i'w gyflawni a ph'un a yw'r cymorth yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan adnoddau'r CE (e.e. cronfeydd strwythurol).
- Os ceir cais sy'n golygu y bydd y derbynnydd yn mynd y tu hwnt i'r terfyn uchaf, ni ellir dyfarnu cymorth de minimis yn gyfan gwbl nac yn rhannol (hyd yn oed pe na bai dyfarniad rhannol yn mynd â'r derbynnydd dros y terfyn uchaf).
- Dylid mynegi cymorth de minimis fel grant arian parod ac mae angen mynegi pob ffigur fel swm gros h.y. cyn didynnu treth neu dâl arall.
- Ni ellir cronni cymorth de minimis gyda chymorth Gwladwriaethol arall mewn perthynas â'r un costau cymwys pe bai cronni cymorth fel hyn yn arwain at ddwysedd cymorth sy'n fwy na'r hyn a bennwyd gan y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (GBER) neu'r penderfyniad a fabwysiadwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â chymorth Gwladwriaethol.
- Pan fydd cymorth de minimis yn daladwy mewn sawl swm, bydd yn rhaid ei ddisgowntio yn ôl i ddyddiad ysgrifenedig y cynnig.
- Cyhoeddir y gyfradd llog y mae angen ei defnyddio at ddibenion disgowntio ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd: www.ec.europa.eu/competition/state_aid/legislation/reference_rates.html
- Os dyfernir y cymorth ar ffurf heblaw grant (megis gwasanaethau a gymorthdelir) bydd angen cyfrifo a mynegi swm y cymorth fel swm cyfwerth â grant arian parod.
- Caiff gwerth sterling cyfatebol y trothwy de minimis ar unrhyw adeg ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid y Comisiwn sy'n gymwys ar y dyddiad y caiff cyllid de minimis ei gynnig yn ysgrifenedig: www.ec.europa.eu/budget/contracts_grants/info_contracts/inforeuro/index_en.cfm

**Enghraifft weithredol (er mwyn sicrhau nad eir dros y trothwy de minimis)**

Mae cwmni ABC wedi cael £25,000 ym mis Hydref 2013, beth fyddai uchafswm y cymorth de minimis y gellid ei ddyfarnu ar 15 Ionawr 2014 pe bai ei flwyddyn gyllidol rhwng 5 a 6 Ebrill?

- Cyfrifwch gyfanswm y cymorth de minimis a gafwyd gan y buddiolwr yn ystod y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol h.y. 2011-12, 2012-13, 2013-14; yn yr achos hwn y cyfanswm yw £25,000.
- Newidiwch y trothwy de minimis yn Ewros ar y dyddiad perthnasol (15/01/2014) gan ddefnyddio'r gyfradd Gyfnewid briodol (yn yr achos hwn 0.8364), a didynnwch gyfanswm y cymorth de minimis a gafwyd gan y buddiolwr yn ystod y cyfnod cymwys (tair blwyddyn gyllidol).

Gwerth Sterling cyfatebol y trothwy de minimis @ Ion 14 £167,280.

Cymorth de minimis blaenorol a ddyfarnwyd yn ystod y 3 blwyddyn gyllidol ddiwethaf (£25,000).

Trothwy de minimis nas defnyddiwyd £142,280.

**Uchafswm y cymorth de minimis y gellir ei roi ar 15 Ionawr 2014 yw £142,280.**

## 3. Rhaid hysbysu'r sefydliad sy'n cael cymorth de minimis yn ysgrifenedig

- y bydd yn cael cymorth de minimis;
- am swm y cymorth y bwriedir ei roi wedi'i fynegi fel swm cyfwerth â'r grant gros h.y. cyn didynnu treth neu dâl arall;
- gan gyfeirio'n benodol at Reoliad De Minimis 1407/2013 fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd dyddiedig 24 Rhagfyr 2013.

**Rhoddir enghraifft o lythyr y gellir ei ddefnyddio i hysbysu sefydliad y bydd yn cael cymorth de minimis yn Atodiad 2.**
Dylai unrhyw lythyr cynnig grant/contract a anfonir i sefydliad hefyd gyfeirio at swm y cymorth a ddyfarnwyd o dan Reoliad De Minimis 1407/2013.

**AR ÔL I GYMORTH DE MINIMIS GAEL EI DDYFARNU BYDD ANGEN I CHI WNEUD Y CANLYNOL:**

## 4. Sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion monitro

Mae'n ofynnol i chi sicrhau bod gennych system ar waith i fonitro cymorth a ddyfernir yn unol â Rheoliad de minimis.

Rhaid cadw cofnodion manwl o gymorth de minimis a roddwyd yn unol â Rheoliad de minimis am 10 mlynedd o'r dyddiad y cafodd y swm unigol diwethaf o gymorth ei roi neu, ar gyfer cynlluniau, o'r dyddiad y rhoddwyd y dyfarniad unigol diwethaf o dan y cynllun.

Dylai cofnodion gynnwys:

- manylion y wybodaeth a gasglwyd cyn rhoi'r cymorth (gan gynnwys y swm o de minimis y mae'r buddiolwr wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn gyllidol bresennol neu'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol);
- enw'r buddiolwr a'r cynllun;

- faint o gymorth a roddwyd a'r dyddiad;
- unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i ddangos bod telerau ac amodau'r Rheoliad wedi cael eu bodloni.

Gall y Comisiwn, o fewn 20 diwrnod gwaith, ofyn am wybodaeth ddigonol gan Aelod wladwriaethau a'r DU sy'n dangos cydymffurfiaeth â Rheoliad de minimis.

## Opsiwn B: Arian i drydydd parti er mwyn iddo weinyddu cynllun de minimis

Wrth roi arian i drydydd parti er mwyn iddo weinyddu cynllun de minimis ar eich rhan, bydd angen i chi sicrhau bod y sefydliad wedi rhoi'r systemau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith er mwyn cydymffurfio â Rheoliad De Minimis (h.y. gweithdrefnau digonol i gydymffurfio â'r gofynion gweinyddol a nodir o dan Opsiwn A).

Felly, dylai fod yn ofynnol i'r sefydliad trydydd parti gyflwyno manylion y system y mae wedi'i rhoi ar waith i fonitro cymorth a roddir yn unol â Rheoliad de minimis.

Awgrymir y dylid cynnwys y telerau ac amodau canlynol yn y llythyr cymeradwyo/contract:

> O'r grant hwn dyfarnwyd xx ar y sail y bydd yr ymgeisydd yn gweithredu cynllun de minimis. Rhaid i unrhyw gymorth a roddir i'r buddiolwyr terfynol gydymffurfio â Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1407/2013 dyddiedig 24 Rhagfyr 2013 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad at gymorth de minimis https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32013R1407&from=EN

Yn benodol:

- Rhaid i **enw'r ymgeisydd** sicrhau, pan fwriedir cynnig cymorth de minimis, cyn cynnig cymorth, nad eir dros drothwy de minimis.
- Rhaid i **enw'r ymgeisydd** hysbysu unrhyw sefydliad sy'n cael gwasanaeth/grant (dileer fel y bo'n briodol) o dan y cynllun ei fod yn cael cymorth de minimis yn unol â Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1407/2013 dyddiedig 24 Rhagfyr 2013 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad at gymorth de minimis.
- Rhaid i **enw'r ymgeisydd** sicrhau bod yn rhaid i unrhyw sefydliad sy'n cael cymorth de minimis gadw cofnod o'r cymorth de minimis a datgan y swm i unrhyw gorff dyfarnu cymorth sy'n gofyn am wybodaeth am faint o gymorth de minimis y mae wedi'i gael.
- Mae'n ofynnol i **enw'r ymgeisydd** gyflwyno manylion y system sydd ar waith i fonitro cymorth de minimis o fewn mis i ddyddiad y llythyr hwn.
- Rhaid i **enw'r ymgeisydd** gadw cofnodion manwl o'r cymorth a roddwyd o dan gynllun de minimis am 10 mlynedd.

# Atodiad 1

Isod ceir crynodeb o Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1407/2013. Gellir darllen Testun Llawn y Rheoliad yma.

Mae'r Rheoliad yn cwmpasu symiau bach o gymorth (cymorth "de minimis") o fewn trothwy a bennwyd ymlaen llaw, nad ydynt yn cyfrif fel Cymorth Gwladwriaethol yn ystyr Erthygl 107(1), ac sydd felly wedi'u heithrio o ofynion hysbysu'r rheolau ar gystadleuaeth.

Ymysg y canllawiau eraill sydd ar gael mae: cyfarwyddiadau desg de minimis, taflen wybodaeth de minimis (taflen wybodaeth 9) a rhestrau gwirio de minimis (rhestrau gwirio 8 ac 8 (a)).

## Cwmpas y Rheoliad

Mae'r rheol de minimis yn gymwys i gymorth a roddir i ymgymeriadau ym mhob sector, ac eithrio'r canlynol:

- cymorth a roddir i ymgymeriadau sy'n ymwneud â phrif brosesau cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol a'r sectorau pysgodfeydd a dyframaethu
- cymorth a roddir i ymgymeriadau sy'n gweithredu yn y sector prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol, yn yr achosion canlynol:
  - pan gaiff swm y cymorth ei bennu'n seiliedig ar bris neu'r nifer o gynhyrchion o'r fath a brynwyd gan gynhyrchwyr cynradd neu a roddwyd ar y farchnad gan yr ymgymeriadau dan sylw
  - pan fo'r cymorth yn amodol ar gael ei drosglwyddo'n rhannol neu'n gyfan gwbl i'r cynhyrchwyr cynradd
- cymorth ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag allforio nwyddau i drydydd gwledydd neu Aelod-wladwriaethau, sef cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r meintiau a gaiff eu hallforio, sefydlu a gweithredu rhwydwaith dosbarthu neu wariant cyfredol arall sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd allforio
- cymorth sy'n ddibynnol ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau wedi'u mewnforio
- cymorth i gaffael cerbydau cludo nwyddau ar y ffordd a roddir i ymgymeriadau sy'n cludo nwyddau ar y ffordd am dâl neu wobr.

Caniateir cymorth a roddir i ymgymeriadau ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys prosesu a marchnata cynhyrchion a nodir yn Atodiad 1 o dan amgylchiadau penodol.

## Meini prawf

Ni ddylai cyfanswm y cymorth de minimis a roddir i unrhyw fusnes unigol (gweler yr adran diffiniadau) fod yn fwy na €200,000 dros unrhyw gyfnod o dair blwyddyn gyllidol (h.y. ar gyfer pob swm newydd o gymorth de minimis a roddir, mae angen pennu cyfanswm y cymorth de minimis a gafwyd gan y buddiolwr yn ystod y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol, mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth SAFE a gafwyd dros yr un cyfnod). Ar gyfer ymgymeriadau sy'n gweithredu yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd, mae'r trothwy de minimis wedi'i bennu ar €100,000.

Mae'r terfyn uchaf yn gymwys i fathau tryloyw o gymorth, waeth at ba ddiben y'i dyfernir.

Os ceir cais sy'n golygu y bydd y derbynnydd yn mynd y tu hwnt i'r terfyn uchaf, ni ellir dyfarnu cymorth de minimis yn gyfan gwbl nac yn rhannol (hyd yn oed pe na bai dyfarniad rhannol yn mynd â'r derbynnydd y tu hwnt i'r terfyn uchaf). Yn achos uno â menter arall neu gaffael menter arall, ystyrir unrhyw gymorth de minimis blaenorol a roddwyd i unrhyw un o'r mentrau sy'n uno wrth benderfynu a fydd unrhyw gymorth de minimis newydd a roddir i'r fenter newydd neu'r fenter sy'n caffael yn golygu ei bod yn mynd y tu hwnt i'r terfyn uchaf perthnasol. Bydd cymorth de minimis a roddwyd yn gyfreithlon cyn y brosesu uno neu gaffael yn dal i fod yn gyfreithlon, hyd yn oed os bydd yn fwy na'r trothwy de minimis, sef €200,000.

Os bydd un ymgymeriad yn rhannu'n ddau ymgymeriad neu fwy ar wahân, dylid dyrannu cymorth de minimis a roddwyd cyn i'r ymgymeriad ymrannu i'r ymgymeriad a gafodd fudd ohono sef, mewn egwyddor, yr ymgymeriad a oedd yn cymryd drosodd y gweithgareddau y defnyddiwyd y cymorth de minimis ar eu cyfer.

Os na ellir dyrannu'r cymorth fel hyn, dylid dyrannu'r cymorth de minimis yn gymesur ar sail gwerth llyfr cyfalaf ecwiti'r ymgymeriadau newydd ar ddyddiad gweithredol yr ymraniad.

Caiff y terfyn uchaf o €200,000 ei fynegi fel grant arian parod. Dylai ffigurau fod yn rhai gros, cyn didynnu unrhyw symiau ar gyfer trethiant uniongyrchol. Os dyfernir y cymorth ar ffurf heblaw grant, swm y cymorth fydd y swm sy'n gyfwerth â'r grant gros. Rhaid disgowntio cymorth sy'n daladwy mewn sawl rhandaliad i'w werth pan gynigiwyd y cymorth. Wrth bennu gwerth dyfarniad de minimis, dylid defnyddio cyfradd gyfnewid swyddogol y Comisiwn sy'n gymwys ar adeg rhoi'r cymorth (h.y. dyddiad y cynnig ysgrifenedig).

Dylid ystyried bod y cymorth de minimis wedi'i roi pan roddir yr hawl gyfreithiol i dderbyn y cymorth i'r buddiolwr o dan y gyfundrefn gyfreithiol genedlaethol gymwys, sef y dyddiad dyfarnu.

## Cymorth tryloyw

Dim ond i gymorth sy'n dryloyw h.y. os gellir cyfrifo'r union swm sy'n gyfwerth â'r grant gros cyn rhoi'r cymorth heb fod angen cynnal asesiad risg ("cymorth tryloyw") y mae'r Rheoliad yn gymwys. Ystyrir bod y cynlluniau cymorth canlynol yn dryloyw:

- grantiau;
- cymorthdaliadau cyfradd llog;
- eithriad treth wedi'i gapio;
- cymorth i dalu benthyciadau lle mae'r swm cyfwerth â grant gros wedi'i gyfrifo ar sail cyfraddau llog y farchnad a oedd mewn grym ar adeg rhoi'r cymorth;
- gellir ystyried nad yw swm cyfwerth â grant gros benthyciadau a sicrheir gan warant gyfochrog sy'n cwmpasu o leiaf 50% o'r benthyciad ac nad ydynt yn fwy nag EUR 1 000 000 nac yn para'n hwy na phum mlynedd neu nad ydynt yn fwy nag EUR 500 000 nac yn para'n hwy na 10 mlynedd, yn fwy na'r terfyn uchaf de minimis;
- cymorth ar gyfer chwistrelliadau o gyfalaf ar yr amod nad yw cyfanswm y chwistrelliad cyhoeddus yn fwy na'r terfyn uchaf de minimis;
- cymorth ar gyfer mesurau cyfalaf risg ar yr amod bod y cynllun cyfalaf risg dan sylw yn darparu cyfalaf hyd at y terfyn de minimis uchaf ar gyfer pob ymgymeriad targed yn unig;
- cymorth a roddir o dan gynllun gwarant lle nad yw'r rhan sydd wedi'i gwarantu o'r benthyciad sylfaenol a ddarparwyd o dan gynllun o'r fath yn fwy nag EUR 1 500 000 fesul buddiolwr a lle nad yw'r warant yn fwy nag 80% o'r benthyciad (EUR 750,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd).

**Nid ystyrir bod cymorth i gwmnïau mewn trafferth ar ffurf benthyciad neu warant yn gymorth tryloyw.**

## Cronni

Ni ellir cronni cymorth de minimis gyda chymorth Gwladwriaethol arall mewn perthynas â'r un costau cymwys pe bai cronni cymorth fel hyn yn arwain at ddwysedd cymorth sy'n fwy na'r hyn a bennwyd gan yr Eithriad Bloc neu'r Penderfyniad a fabwysiadwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â chymorth Gwladwriaethol.

Mae'r terfyn uchaf o €200,000 yn gymwys i gyfanswm y cymorth de minimis i ymgymeriad unigol (h.y. pob endid cyfreithiol ar wahân) o bob ffynhonnell o gymorth de minimis a SAFE (€100,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd).

## Gofynion Monitro'r Rheoliad

Pan fydd darparwr cymorth yn rhoi cymorth de minimis, rhaid iddo:

- hysbysu'r derbynnydd am gymeriad de minimis y cymorth a lefel y cymorth, gan gyfeirio'n benodol at y rheoliad de minimis
- cael datganiad gan y derbynnydd am gymorth de minimis a SAFE arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn gyllidol flaenorol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol
- dim ond rhoi grant de minimis newydd ar ôl cadarnhau na fydd y grant hwn yn cynyddu cyfanswm y cymorth perthnasol a gafwyd yn ystod y cyfnod perthnasol o dair blwyddyn gyllidol i lefel sy'n fwy na'r terfyn uchaf o €200,000 (€100,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd).

## Cofnodion

Cynhelir cofnodion sy'n ymwneud â chymorth de minimis am 10 mlynedd o'r dyddiad y'i rhoddwyd. Rhaid cadw cofnodion o gynllun cymorth de minimis am 10 mlynedd o'r dyddiad y cafodd y swm unigol diwethaf o gymorth ei roi o dan gynllun o'r fath.

## Diffiniadau

**Ystyr "cynhyrchion amaethyddol"** yw cynhyrchion a restrir yn Atodiad I i Gytuniad y CE, ac eithrio cynhyrchion pysgodfeydd a gwmpesir gan Reoliad (CE) Rhif 104/2000.

**Ystyr "prosesu cynhyrchion amaethyddol"** yw unrhyw weithrediad ar gynnyrch amaethyddol sy'n arwain at gynnyrch sydd hefyd yn gynnyrch amaethyddol, heblaw ar weithgareddau fferm sydd angen eu cynnal er mwyn paratoi cynnyrch anifail neu blanhigion i'w werthu am y tro cyntaf.

**Ystyr "marchnata cynhyrchion amaethyddol"** yw dal neu arddangos cynhyrchion i'w gwerthu, i'w cynnig i'w gwerthu, eu cyflenwi neu eu rhoi gan ddefnyddio unrhyw ddull arall ar y farchnad, ac eithrio'r gwerthiant cyntaf gan gynhyrchwr cynradd i ailwerthwyr neu broseswyr ac unrhyw weithgaredd arall sy'n paratoi cynnyrch ar gyfer gwerthiant cyntaf o'r fath; ystyrir bod gwerthiant gan gynhyrchwr cynradd i ddefnyddwyr terfynol yn weithgaredd marchnata os bydd yn digwydd ar safle ar wahân a gadwyd at y diben hwnnw.

**Ystyr "Ymgymeriad Unigol"** yw pob busnes sydd ag o leiaf un o'r cydberthnasau canlynol â'i gilydd:

(a) mae gan un busnes fwyafrif o hawliau pleidleisio cyfranddalwyr neu aelodau mewn busnes arall;

(b) mae gan un busnes yr hawl i benodi neu gael gwared ar fwyafrif o aelodau corff gweinyddol, rheoli neu oruchwylio busnes arall;

(c) mae gan un busnes yr hawl i ddylanwadu'n fwy ar fusnes arall yn unol â chontract a luniwyd â'r busnes hwnnw neu ddarpariaeth yn ei femorandwm neu ei erthyglau cymdeithasu;

(ch) mae gan un busnes, sy’n rhanddeiliad mewn busnes arall neu’n aelod ohono, yn rheoli ar ei ben ei hun, yn unol â chytundeb â rhanddeiliaid eraill yn y busnes hwnnw neu aelodau ohono, fwyafrif o hawliau pleidleisio’r cyfranddalwyr neu’r aelodau yn y busnes hwnnw.

Ystyrir bod unrhyw fusnesau sydd ag unrhyw un o’r cydberthnasau y cyfeirir atynt ym mhwyntiau (a) i (ch) o’r is-baragraff cyntaf drwy un neu ragor o fusnesau eraill yn ymgymeriad unigol hefyd.

# Atodiad 2

## Ffurflen 1: Cymhwysedd i dderbyn cymorth de minimis

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i bennu Gwerth unrhyw gymorth De Minimis y mae cleient wedi'i dderbyn yn flaenorol, er mwyn nodi a yw'n bosibl rhoi rhagor o gymorth de minimis.

Efallai y bydd gweinyddwyr cymorth am ychwanegu'r wybodaeth berthnasol at eu ffurflenni cais, gan ddibynnu ar natur y cynllun de minimis sydd ar waith.

Annwyl

**CYMORTH GWLADWRIAETHOL [TEITL Y CYNLLUN (OS YW'N GYMWYS)]: CYMORTH DE MINIMIS**

Er mwyn lleihau unrhyw achosion o aflunio cystadleuaeth cymaint â phosibl, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod terfynau ar faint o gymorth y gellir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Mae'r llythyr hwn yn nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hynny. Dylech nodi'r gofynion a'r rhwymedigaethau yn ofalus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r gweinyddwr cymorth.

O dan Reoliad y CE Rhif 1407/2013 (Rheoliad Cymorth de Minimis) fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd dyddiedig 24 Rhagfyr 2013, mae'r cymorth a ddarperir yn gymorth de minimis. Mae terfyn uchaf o €200,000 (€100,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a roddir i unrhyw sefydliad penodol dros gyfod o dair blwyddyn gyllidol (h.y. eich blwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis a roddir i chi o dan y cynllun hwn yn gymwys os hoffech wneud cais, neu os ydych wedi gwneud cais, am unrhyw gymorth de minimis arall. Gwerth y cymorth (neu amcangyfrifir mai gwerth y cymorth) o dan y cynllun hwn yw) [                    ].

Bydd angen i chi ddatgan y swm hwn i unrhyw gorff arall sy'n rhoi cymorth sy'n gofyn i chi faint o gymorth de minimis rydych wedi'i dderbyn. At ddibenion y rheoliad de minimis, rhaid i chi gadw'r llythyr hwn am dair blynedd o'r dyddiad ar y llythyr hwn a'i gyflwyno ar gais awdurdodau cyhoeddus yn y DU neu'r Comisiwn Ewropeaidd. (Gall fod angen i chi gadw'r llythyr hwn am fwy na 3 blynedd at ddibenion eraill.)

Rhowch wybod inni nawr am unrhyw gymorth de minimis arall neu Symiau Bach o Esemptiad Ariannu (SAFE) a gafwyd yn ystod eich blwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol, gan y bydd angen inni gadarnhau na fydd ein cymorth, o'i ychwanegu at yr hyn a gafwyd eisoes, yn mynd dros y trothwy o €200,000 (€100,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafnidiaeth cludo nwyddau ar y ffordd dros y tair blwyddyn gyllidol ddiwethaf). Mae Cymorth De Minimis nid yn unig yn cynnwys grant, ond hefyd gymorth megis gwasanaethau ymgynghoriaeth, cyngor marchnata ac ati am ddim neu â chymhorthdal. Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch p'un a yw'r cymorth blaenorol a gafwyd wedi'i ddosbarthu'n gymorth de minimis neu gymorth SAFE dylech ei gynnwys. Llofnodwch y datganiad atodedig i gadarnhau eich bod yn gymwys i dderbyn cymorth.

Yn gywir

## Datganiad am gymorth de minimis a chymorth Symiau Bach o Esemptiad Ariannol (SAFE) a gafwyd

Cadarnhaf fy mod wedi cael y cymorth de minimis a SAFE canlynol yn ystod y tair blwyddyn gyllidol flaenorol (h.y. y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flwyddyn gyllidol flaenorol):

| **Corff a roddodd y cymorth** | **Gwerth y cymorth £** | **Dyddiad y cymorth** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Rwy'n cydnabod, os na fyddaf yn bodloni'r Gofynion Cymhwysedd, y byddaf/byddwn yn agored i dalu'r pris llawn a fyddai fel arall yn daladwy mewn perthynas â'r gwasanaethau a dderbyniwyd.

Cwmni: ______________________________

Enw'r Cleient: ______________________________

Llofnod: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

## Ffurflen 2: Gwerth y cymorth De Minimis a roddwyd

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i roi Gwerth gwirioneddol cymorth De Minimis a roddir ar ddiwedd prosiect, pan na fydd yn bosibl cyfrif union lefel y cymorth ar y dechrau, er enghraifft, fel rhan o gynllun cymorth busnes lle y gellir darparu gwasanaeth hyd at uchafswm.

Enw'r Prosiect: ______________________________

Rhoi Cymorth De Minimis.

Rwyf i, ______________________________ (cynrychiolydd y noddwr), ar ran ______________________________ (y noddwr), yn cadarnhau bod ______________________________ (y cleient) wedi derbyn y Cymorth De Minimis canlynol ar y rhaglen uchod:

| **Natur y Cymorth** | **Gwerth y cymorth £** | **Dyddiad y cymorth** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Llofnodwyd ar ran y noddwr: ______________________________

Enw: ______________________________

Llofnodwyd ar ran y Cleient: ______________________________

Enw: ______________________________

WG43050 © Hawlfraint y Goron 2021